**Cyflwyniad**

Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005 (GDT – 'y Gorchymyn') yn gosod dyletswyddau ar "bersonau cyfrifol", i'r graddau y mae ganddynt reolaeth dros adeiladau i wneud y canlynol:

- asesu'r risgiau tân i iechyd a diogelwch eu gweithwyr ac unrhyw rai eraill y gall eu gweithgareddau effeithio arnynt; a
- dileu'r risgiau hynny, cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, neu fel arall leihau'r risgiau hynny i lefel y gellir ei goddef.

Pwrpas

Pwrpas y ddogfen ganllaw hon yw sicrhau, cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod y brifysgol yn gweithredu'n effeithiol a galluogi'r staff, y myfyrwyr, contractwyr, ac ymwelwyr i gyflawni eu gweithgareddau heb niweidio eu hiechyd, eu diogelwch na'u lles.

Cwmpas

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn gymwys i'r holl adeiladau a'r cyfleusterau sy'n dod, i unrhyw raddau, dan reolaeth y brifysgol. Mae'r ddogfen ganllaw yn gosod y fframwaith y disgwylir i'r brifysgol a'r holl staff, myfyrwyr, contractwyr, ac ymwelwyr gyflawni eu dyletswyddau diogelwch tân o'i fewn.

**Trefniadau Diogelwch Tân (Rolau a Chyfrifoldebau)**

Trefniadau

Bydd y cyfrifoldeb beunyddiol dros sicrhau y cyflawnir y dyletswyddau hyn yn cael ei ddirprwyo i swyddogion unigol yn y brifysgol.

Cyngor Prifysgol Aberystwyth (Person Cyfrifol)

Bydd y Cyngor yn dirprwyo'r cyfrifoldebau beunyddiol i'r Is-Ganghellor.

Bydd yr Is-Ganghellor yn sicrhau:

Bod adnoddau digonol ar gael i alluogi'r Brifysgol i gyflawni ei dyletswyddau dan y Gorchymyn.

Cyfarwyddwr Stadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd

Y Cyfarwyddwr Stadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd fydd yn gyfrifol am sicrhau, mewn mannau sydd dan ei reolaeth:

Yr ymdrinnir yn briodol â chanfyddiadau arwyddocaol o asesiadau risg tân yng nghyswllt deunyddiau a strwythur adeiladau, ac y cymerir camau rheoli addas yn unol â'r egwyddorion atal a ddiffinnir yn Rhan 3 Atodlen 1 i'r Gorchymyn Diogelwch Tân

Fod nodweddion pob adeilad (e.e., cydrannau strwythurol, drysau tân, parwydydd, etc.) a'r cyfarpar a ddarperir i sicrhau diogelwch tân yn cael eu cynnal a'u cadw gan rywun cymwys, yn addas ac effeithlon, yn gweithio'n iawn ac mewn cyflwr da.

Fod pob ardal newydd a mannau a ailwampiwyd wedi eu dylunio fel eu bod yn cydymffurfio â'r ddogfen ganllaw hon a gofynion unrhyw ddeddfwriaeth diogelwch tân berthnasol.

Lle y bo'n berthnasol, fod contractwyr adeiladu a gyflogir at y dibenion canlynol: cynnal a chadw, trwsio, gosod, adeiladu, dymchwel neu waith arall, neu ar eu rhan (isgontractwyr), yn cynnal asesiad risg tân cyn cychwyn gweithio ar y safle.

Y ceir cyswllt ac ymgynghori priodol â phersonau cyfrifol eraill, e.e., tenantiaid / contractwyr, er mwyn gofalu eu bod yn ymwybodol o ddogfen ganllaw a gweithdrefnau diogelwch tân y brifysgol ac i nodi unrhyw risgiau sy'n deillio o'u gweithgareddau a allai gael effaith ar y brifysgol neu aelodau o gymuned y campws.

<u>Dirprwy Is-gangellorion Cyfadrannau, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau</u>

Bydd Dirprwy Is-gangellorion y Cyfadrannau, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

Bod yr holl weithgareddau a phrosesau sydd o dan eu rheolaeth yn cael eu hasesu am ddiogelwch tân ac y cymerir camau rheoli addas yn unol â'r egwyddorion rheoli (Cyffredinol a Sylweddau Peryglus) (gweler Atodiad A) a ddiffinnir yn y Gorchymyn.

Bod yr holl staff a ddaw dan eu rheolaeth yn cael hyfforddiant a chyfarwyddyd mewn materion diogelwch tân sy'n gymesur â'u gweithgareddau.

Bod yr holl staff, myfyrwyr, ymwelwyr, a chontractwyr sy'n dod dan eu rheolaeth yn cydymffurfio â gofynion y ddogfen ganllaw diogelwch tân.

<u>Y Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd</u>

Bydd y Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn sicrhau'r canlynol:

Y cynhelir asesiadau risg tân (deunydd adeiladau, strwythur a dulliau dianc) a dygir unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol i sylw'r sawl sy'n gyfrifol er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddogfen Ganllaw hon.

Bod y ddogfen ganllaw diogelwch tân a'r gofynion statudol yn cael eu monitro a'u hadolygu ac y cyflwynir adroddiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar berfformiad diogelwch tân i Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Prifysgol Aberystwyth.

Bod canllawiau a safonau priodol ar gael fel bod modd gweithredu gofynion y polisi hwn yn iawn.

Bod gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant am ddiogelwch tân ar gael i bob aelod o gymuned y campws yn ôl y gofyn.

<u>Ymgynghorydd Diogelwch Tân</u>

Bydd yr Ymgynghorydd Diogelwch Tân yn gyfrifol am y canlynol:

Cynnal asesiadau risg tân ar gyfer holl adeiladau Prifysgol Aberystwyth.

Cydlynu â'r adrannau mewnol eraill, yr adran rheolaeth adeiladu leol a'r awdurdod tân ynghylch manylebion rhagofalon tân mewn adeiladau newydd a'r rhai presennol.

Sicrhau bod y canllawiau diogelwch tân yn cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau cyfreithiol ac arferion gorau'r diwydiant.

Ymchwilio i Danau/Rhybuddion Tân Annilys, paratoi adroddiadau a chynnal cofnodion am bob digwyddiad, gan sicrhau yr anfonir copïau o adroddiadau tân ymlaen fel sy'n briodol.

Cydlynu â rheolwr i roi cyngor i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau dan ddogfen ganllaw diogelwch tân y brifysgol.

Cydlynu â'r adrannau priodol i roi cyngor i sicrhau bod yr holl gyfarpar ymladd  tân, a'r arwyddion a hysbysiadau diogelwch tân yn cael eu darparu a'u cynnal yn briodol, yn ogystal â darpariaethau peirianneg tân eraill.

Datblygu a chyflwyno hyfforddiant diogelwch tân, gan gynnwys manylion i'r adeiladau penodol dan sylw, i bob gweithiwr newydd. Mae manylion am sut i drefnu hyfforddiant i'w cael yn adran berthnasol y ddogfen hon.

<u>Rheolwr Cydymffurfio</u>
Bydd y rheolwr cydymffurfio yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i brofi, gwasanaethu, cynnal a chofnodi'r isod:

- Systemau llethu tân sefydlog awtomatig
- Cyfarpar cludadwy i ymladd tanau gan gynnwys blancedi tân
- Goleuadau dianc mewn argyfwng
- Systemau larwm tân
- Drysau tân
- Damperi tân
- Pibelli cysylltu
- Damperi tân
- Pibelli cysylltu

<u>Technegydd Stadau (Diogelwch Tân)</u>
Mae'r technegydd diogelwch tân yn gyfrifol am yr isod:

Gwasanaethu, profi a diweddaru'r holl gofnodion am yr holl gyfarpar ymladd tân cludadwy a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth yn unol â'r codau ymarfer perthnasol, gan gynnwys BS 5306-3:2017.

Archwilio, profi a chofnodi pob archwiliad ar ddrysau tân.

Bwrw golwg bob wythnos ar y system chwistrellu dŵr a osodir ym Mhantycelyn yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

<u>Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (Tîm Diogelwch)</u>

Mae'r staff diogelwch yn darparu gwasanaeth 24-awr 7 diwrnod yr wythnos i'r brifysgol ac y maent yn gyfrifol am:

Monitro a derbyn galwadau larwm tân o bob adeilad yn ystad y brifysgol.

Sicrhau bod personél yn ymateb yn syth i bob galwad larwm tân yn ystad y brifysgol.

Ymateb i alwadau ffôn brys o holl eiddo'r brifysgol, penderfynu ar y camau priodol, a'u cymryd.

Penderfynu o fewn pum munud o dderbyn unrhyw alwad larwm tân a ddylid galw'r gwasanaeth tân at y digwyddiad ai peidio.

Cwblhau adroddiad ar ddiwedd pob galwad larwm tân a'i anfon at yr Ymgynghorydd Diogelwch Tân.

<u>Mae Goruchwylwyr/Rheolwyr yn gyfrifol am y canlynol:</u>
Bod pob gweithgaredd a phroses sydd o dan eu rheolaeth yn cael eu hasesu am ddiogelwch tân a bod camau rheoli addas yn cael eu gweithredu yn unol â'r egwyddorion rheoli (Cyffredinol a Sylweddau Peryglus) (gweler Atodiad A) a ddiffinnir yn y Gorchymyn Diogelwch Tân, h.y., wedi eu cynnwys yn yr asesiadau risg am weithgareddau ymchwil a gweithgareddau dysgu ymarferol (e.e., wedi eu cynnwys mewn sgriptiau labordy).

Bod yr holl staff a myfyrwyr sydd o dan eu rheolaeth yn cael hyfforddiant a chyfarwyddyd mewn materion diogelwch tân sy'n gymesur â'u gweithgareddau.

Bod yr holl staff, myfyrwyr, ymwelwyr, a chontractwyr sydd o dan eu rheolaeth yn cydymffurfio â gofynion dogfen ganllaw diogelwch tân Prifysgol Aberystwyth.

<u>Staff a Myfyrwyr</u>
Mae gan y staff a'r myfyrwyr gyfrifoldeb i gydymffurfio â gofynion dogfen ganllaw diogelwch tân Prifysgol Aberystwyth. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

Cadw at bob cyfarwyddyd, gwybodaeth a hyfforddiant a fwriadwyd i sicrhau diogelwch tân.

Cydweithredu â'r brifysgol ar faterion diogelwch tân.

Peidio ag ymyrryd ag unrhyw ddeunydd mewn adeilad na chyfarpar a ddarperir yng nghyswllt sicrhau diogelwch tân.

Rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion neu fethiannau yn nhrefniadau neu weithdrefnau diogelwch tân y brifysgol.

*DS. Gallai methu â chydymffurfio â gofynion y polisi hwn arwain at gamau disgyblu.*

<u>Contractwyr</u>
Mae gofyn i gontractwyr:

Asesu'r risgiau diogelwch tân sy'n deillio o'u gwaith/gweithgareddau a rhoi camau rheoli ar waith yn unol â'r egwyddorion rheoli a ddiffinnir yn y Gorchymyn.

Cydweithredu â'r brifysgol ar bob agwedd ar ddiogelwch tân.

Sicrhau eu bod hwy a'r holl staff sydd dan eu rheolaeth wedi derbyn gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant i'w galluogi i gydymffurfio â threfniadau argyfwng Prifysgol Aberystwyth.

Ufuddhau i'r holl gyfarwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch tân a roddir gan aelodau staff perthnasol Prifysgol Aberystwyth.

*DS. Gall methu â chydymffurfio â gofynion y polisi hwn olygu y gofynnir i'r contractwr adael y safle a gall effeithio ar gyflwyniadau tendr yn y dyfodol.*

Rheolwr Cynllunio Lle
Hysbysu ymgynghorydd diogelwch tân y Brifysgol am unrhyw newidiadau a all effeithio ar y trefniadau diogelwch tân presennol. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill: newid defnydd adeilad, newid defnyddwyr adeilad, cynnydd neu ostyngiad yn niferoedd y bobl mewn adeilad, newid y prosesau a wneir yn yr adeilad ac ailfeddiannu neu adael adeiladau.

Pennaeth Prosiectau a Chynnal a Chadw
Hysbysu ymgynghorydd diogelwch tân y Brifysgol am unrhyw newidiadau a all effeithio ar y trefniadau diogelwch tân presennol. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill: symud neu adeiladu waliau mewnol, newidiadau i'r goleuadau dianc mewn argyfwng neu system larwm tân, torri unrhyw waliau neu loriau rhaniadol, newidiadau i unrhyw ddrysau allanfeydd terfynol neu osod offer metel newydd a ffitiwyd i ddrysau allanfeydd terfynol, adnewyddu neu osod drysau tân, newidiadau i lwybrau gadael allanol, adnewyddu neu osod nenfydau neu leinin arwynebau.

**System Larymau Tân**

Mae systemau larwm tân addas yn gwarchod adeiladau Prifysgol Aberystwyth. Gall y rhain gynnwys mannau canfod tân a mwg awtomatig, a mannau larwm a weithredir â llaw.

Noder – fel arfer, mae angen Systemau Larwm a Chanfod Tân Awtomatig, er y gall adeiladau bychain iawn gael systemau gwahanol i rybuddio am dân, e.e., gweiddi 'tân,' larwm gweithredir â llaw.

Mae'r contractwr a benodwyd gan Brifysgol Aberystwyth yn gwneud gwaith gwasanaethu ar y system larwm fel mater o drefn bob chwe mis.

Mae tîm Diogelwch yr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd yn rhoi prawf ar y systemau larwm yn wythnosol trwy seinio pob man larwm gwahanol yn ei dro.

Mae adeiladau Academaidd Penglais yn cael eu profi ar foreau Mawrth, mae Llety'r Brifysgol yn cael ei brofi bob dydd Iau neu ddydd Gwener, yn ôl yr amserlen a gyhoeddir: https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/current-student/living-residences/fire/#test-schedule. Cynhelir prawf yn yr adeiladau ar safle Gogerddan bob dydd Iau.

Er mwyn tarfu cyn lleied ag sydd modd, seinir y larwm am gyfnod byr o amser. Yn ystod y prawf ar y larwm, byddwn yn manteisio ar y cyfle i brofi a oes modd clywed y larwm ym mhob man yn yr adeilad a rhoi prawf i

weld a yw'r cyfarpar sy'n gysylltiedig â'r larwm yn gweithio'n iawn, e.e., drysau sy'n cael eu dal ar agor ar declynnau sy'n rhyddhau'r drysau yn awtomatig pan fydd y larwm yn canu.

Mae canlyniadau profion a gwasanaethu'r larwm yn cael eu cofnodi a'u cadw gan dîm Diogelwch yr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd. Cedwir cofnodion y profion wythnosol yng Nghaban Diogelwch Penglais.

**Goleuadau Dianc mewn Argyfwng**

Mae systemau goleuadau argyfwng wedi eu gosod, yn unol â'r cod ymarfer cymeradwy, ym mhob adeilad a nodwyd yn yr Asesiad Risg Tân (ART) am adeiladau. I roi prawf ar system goleuadau argyfwng, rhaid dynwared toriad ar brif gyflenwad y trydan yn y cylchedau goleuo neu'r unedau golau unigol. Bydd hyn yn gorfodi'r system goleuadau argyfwng i redeg ar y cyflenwad batri. Gwneir y prawf hwn â llaw neu, lle bo modd, yn awtomatig.

Mewn adeiladau lle na ddarperir systemau wedi'u monitro (gan gynnwys hunan-brofi), rhoddir prawf ysgogi misol ar y systemau, ynghyd â phrofi'r system bob blwyddyn drwy ei rhedeg am gyfnod dianc cyflawn.

**Llwybrau Dianc ac Allanfeydd**

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, ac eithrio am adeiladau bychain, mae llwybrau dianc yn cael eu gwarchod trwy adeiladwaith i wrthsefyll tân. Mae graddfa'r adeiladwaith gwrthsefyll tân sydd ei angen yn cael ei bennu gan yr amser angenrheidiol i adael yr adeilad, a'r gofyniad i'r strwythur aros yn sefydlog am gyfnod a bennir ymlaen llaw petai tân yn digwydd.

Lle cynigir newidiadau i adeiladau sy'n debyg o leihau effeithlonrwydd y mesurau diogelwch tân sydd yno eisoes, mae'n hollbwysig gofalu bod y prosiect yn cynnwys camau i ddarparu gwarchodaeth dros dro tra bydd y gwaith yn mynd ymlaen, ac adfer gwarchodaeth tân i'r lefel angenrheidiol wedyn. Nid pob adeilad sydd â gwahaniad tân (e.e., efallai na fydd angen hyn mewn adeiladau bychain).

**Arwyddion**

Arddangosir arwyddion i ddangos y llwybrau dianc rhag tân ar hyd a lled adeiladau i ddangos lle mae'r allanfeydd argyfwng.

**Drysau Tân**

Mae pwrpas drws tân sy'n cael ei ddefnyddio bob dydd yn union yr un fath ag unrhyw ddrws arall. Fodd bynnag, nid oes modd ddileu risg tân yn llwyr, a dyna pryd y mae'n rhaid i ddrws tân ateb ei brif bwrpas – gwarchod llwybrau dianc rhag effeithiau tân am ddigon o amser i'r bobl ddianc. Hefyd, byddant yn cyfyngu ar ledaeniad y tân trwy'r adeilad.

Mae drysau tân yn cael eu cadw ar gau gan declynnau hunan-gau a/neu fe'u cedwir ar glo lle dynodir hynny, e.e., storfa sy'n cynnwys deunyddiau glanhau.

Lle bwriadwyd i ddrysau tân gael eu dal ar agor, mae'n hanfodol cadw'r fan o fewn radiws symud y drysau tân yn glir fel eu bod yn gallu cau'n iawn.

Mae'r adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd yn gwirio gyflwr pob drws tân bob blwyddyn, i sicrhau bod y teclynnau cau drysau, y deunydd ymchwyddo mewn gwres, a'r seliau rhag mwg i gyd yn bresennol ac mewn

cyflwr da. Mae canlyniadau gwiriadau llwybrau dianc a drysau tân yn cael eu cofnodi a'u cadw gan Reolwr Cydymffurfio'r Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd.

**<u>Diffoddyddion Tân a Chyfarpar Ymladd Tân</u>**

Darperir nifer a mathau addas o ddiffoddyddion tân a chyfarpar ymladd tân yn unol â chanfyddiadau'r asesiad risg diogelwch tân.

**<u>Gweithdrefn os bydd Tân</u>**

Mae gan bob adeilad weithdrefn benodol i'w dilyn os bydd tân.

Gwelir y camau i'w cymryd os bydd tân ar yr hysbysiadau gweithredu a ddarperir yn holl adeiladau Prifysgol Aberystwyth (gweler y llun isod)




**<u>Marsialiaid Tân</u>**

Mae'r rhestr isod yn dangos adeiladau sy'n defnyddio system lle gall pob aelod o staff, ar ôl eu hyfforddi, weithredu fel marsialiaid tân. Mae manylion am adeiladau penodol, gan gynnwys camau y dylai'r staff eu cymryd, ar y dudalen hon. https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/fire-safety/fire-safety-manuals/

| | |
|---|---|
| • Cledwyn | • Gwleidyddiaeth Ryngwladol |
| • Edward Llwyd | • Gwyddorau Ffisegol |
| • IBERS newydd (Campws Penglais) | • Elystan Morgan |
| • Penbryn 5 | • Edward Davies |
| • Delweddu | • Rheidol |
| • 12 Parc Gwyddoniaeth | • Llandinam |
| • Carwyn James | |

Mewn adeiladau na throsglwyddwyd i'r system newydd, bydd y trefniadau presennol, sy'n defnyddio marsialiaid tân unswydd, yn dal ar waith. https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/fire-safety/fire-safety-manuals/

**Hyfforddiant**

Mae gofyn i'r holl staff ddilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth tân. Mae gofyn i weithwyr ddilyn cwrs cychwynnol o hyfforddiant mewn diogelwch tân; medrwch gael manylion am sut i archebu lle trwy https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/fire-marshal/ )

Dylid dilyn hyfforddiant diweddaru o leiaf bob dwy flynedd neu'n amlach os ceir newidiadau i'r adeiladau neu i'r gweithgareddau a wneir. Yr hyfforddiant diweddaru yw pecyn hyfforddi ar-lein "Hanfodion Iechyd a Diogelwch" dan y teitl "Deall Bygythiad Tân" y gellir ei gyrchu trwy: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/hseessentials/

**Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)**

Math arbenigol o asesiad risg yw asesiadau COSHH y mae'n rhaid eu cynnal lle mae perygl i rywun wynebu sylwedd peryglus neu gyfrwng biolegol yn ystod y gwaith, neu o ganlyniad i weithgaredd yn y gwaith. Mwy o wybodaeth https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/coshh/

**Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol (DSEAR)**

Gall sylweddau peryglus fod yn risg i ddiogelwch pobl oherwydd tân a ffrwydrad. Mae DSEAR yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr a'r hunangyflogedig i amddiffyn pobl rhag risgiau i'w diogelwch a all deillio o danau, ffrwydradau, a digwyddiadau tebyg yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r cyhoedd a all fod mewn perygl oherwydd gweithgaredd gwaith. https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/dsear/

Gwybodaeth Bellach

https://www.gov.uk/government/collections/fire-safety-law-and-guidance-documents-for-business

https://www.labc.co.uk/professionals/building-regulations-guidance-documents/approved-documents-and-technical-guidance-wales/wales-approved-document-part-b-fire-safety

http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2005/1541/contents/made

http://www.mawwfire.gov.uk/Pages/Welcome.aspx

**Atodiad A**

**Diffiniadau**

Person Cyfrifol

Yn ôl y Gorchymyn Diogelwch Tân ystyr "person cyfrifol" yw:

(a) yng nghyswllt gweithle, y cyflogwr os yw'r gweithle dan ei reolaeth i unrhyw raddau.

(b) yng nghyswllt unrhyw adeilad nad yw'n dod dan baragraff (a).

> (i) y person sydd â rheolaeth dros yr adeilad (yn feddiannydd yno neu fel arall) mewn cysylltiad â chynnal masnach, busnes neu ymgymeriad arall (boed am elw neu beidio); neu
>
> (ii) y perchennog lle nad oes gan y person sy'n rheoli'r adeilad reolaeth mewn cysylltiad â chynnal masnach, busnes neu ymgymeriad arall gan y person hwnnw.

Sylwedd Peryglus

(a) sylwedd neu gymysgedd, sy'n ateb y meini prawf yn y canllaw cymeradwy am gategorïo a labelu ar gyfer cael eu categorïo fel sylwedd neu gymysgedd sy'n ffrwydrol, ocsideiddiol, hynod fflamadwy, fflamadwy iawn neu fflamadwy, boed y sylwedd neu'r cymysgedd dan sylw wedi ei gategorïo dan Reoliadau Dosbarthu, Labelu a Phecynnu Cemegolion (Newidiadau i Ddeddfwriaeth Eilaidd) 2015:

(b) sylwedd neu gymysgedd sydd oherwydd ei briodweddau ffisiogemegol neu briodweddau cemegol a'r ffordd y'i defnyddir, neu'r ffordd y mae'n bresennol mewn adeilad neu arno, yn creu risg.

(c) unrhyw lwch, boed ar ffurf gronynnau solet neu ddeunyddiau ffibrog neu fel arall, a all ffurfio cymysgedd ffrwydrol gydag aer neu atmosffer ffrwydrol.

Egwyddorion Rheoli (Cyffredinol):

Mae'r Gorchymyn yn diffinio egwyddorion rheoli, yn nhrefn blaenoriaeth, fel:

(a) osgoi risgiau.

(b) cloriannu'r risgiau nad oes modd eu hosgoi.

(c) mynd i'r afael â'r risg wrth ei tharddle.

(d) addasu i gynnydd technegol.

(e) rhoi rhywbeth nad yw'n beryglus neu'n llai peryglus yn lle rhywbeth peryglus.

(f) datblygu polisi atal cyffredinol dealladwy sydd yn ymdrin â'r dechnoleg, y trefniadau gwaith, a dylanwad ffactorau sy'n ymwneud â'r amgylchedd gwaith.

(g) rhoi blaenoriaeth i gamau diogelu ar y cyd dros gamau diogelu unigol.

(h) rhoi cyfarwyddiadau priodol i weithwyr.

Egwyddorion Rheoli (Sylweddau Peryglus):
Dywed y Gorchymyn:

1. fod yn rhaid i'r person cyfrifol, yn nhrefn blaenoriaeth, wneud y canlynol:

(a) gostwng cyfanswm y sylweddau peryglus i'r lleiaf posib

(b) osgoi neu leihau rhyddhau sylwedd peryglus

(c) rheoli rhyddhau sylwedd peryglus wrth y tarddle

(d) atal atmosffer ffrwydrol rhag ffurfio, gan gynnwys awyru yn briodol

(e) sicrhau bod unrhyw sylwedd peryglus a ryddhawyd ac a all beri risg dan reolaeth briodol, yn cael ei gynnwys yn ddiogel, ei symud i le diogel, neu fel arall yn cael ei wneud yn ddiogel, fel sy'n briodol

(f) osgoi:

(i) ffynonellau tanio gan gynnwys dadwefriadau electrostatig; ac

(ii) unrhyw amodau andwyol eraill a allai arwain at effeithiau corfforol niweidiol yn deillio o sylwedd peryglus; a

(g) chadw sylweddau peryglus anghydnaws ar wahân

2. Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod y camau lliniaru yn cynnwys:

(a) gostwng nifer y bobl sy'n wynebu'r sylwedd i'r isafswm posib

(b) camau i osgoi tanau neu ffrwydradau rhag lledaenu

(c) darparu trefniadau lliniaru pwysedd ffrwydradau

(d) darparu cyfarpar atal ffrwydradau

(e) darparu offer a adeiladwyd i wrthsefyll y pwysedd sy'n debyg o gael ei gynhyrchu gan ffrwydrad; a

(f) darparu cyfarpar gwarchod personol addas

3. Rhaid i'r person cyfrifol:

(a) sicrhau bod yr adeiladau wedi eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal er mwyn lleihau risg

(b) sicrhau bod camau arbennig, technegol a threfniadol addas wedi eu dylunio, eu hadeiladu, eu rhoi ynghyd, eu gosod, eu darparu a'u defnyddio i leihau risg

(c) sicrhau bod mesurau arbennig, technegol a threfniadol addas yn cael eu cynnal a'u cadw yn effeithiol, yn gweithio'n effeithiol ac mewn cyflwr da

(d) sicrhau bod cyfarpar a systemau gwarchod yn bodloni gofynion y Gorchymyn

(e) lle mae gwaith yn cael ei wneud mewn mannau peryglus neu lle mae'n golygu gweithgareddau peryglus, sicrhau y cymhwysir systemau gwaith priodol, gan gynnwys

(i) rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig am sut i wneud y gwaith; a

(ii) system o drwyddedau i weithio, gyda'r cyfryw drwyddedau yn cael eu rhoi gan berson sydd â chyfrifoldeb am y dasg hon cyn i'r gwaith dan sylw gychwyn

<u>Man Rhesymol Ddiogel</u>
Lle mewn adeilad neu strwythur lle, am gyfnod cyfyngedig o amser, y bydd gan bobl rywfaint o warchodaeth rhag effeithiau tân a mwg. Cyntedd neu risiau fydd y lle hwn fel arfer, ac fe rheol bydd iddo o leiaf 30 munud o wrthiant rhag tân gan roi modd i bobl barhau i ddianc i fan hollol ddiogel.

<u>Man hollol ddiogel</u>
Yng nghyswllt adeiladau, mae hyn yn golygu man diogel y tu hwnt i'r adeilad.

<u>Hyfforddiant a Briffio</u>
Hyfforddiant yw rhoi i staff, myfyrwyr (ac eraill y mae gan y Brifysgol ddyletswydd o ofal drostynt) y sgiliau perthnasol i ymdrin yn briodol â sefyllfa Iechyd a Diogelwch benodol. Briffio yw rhoi gwybodaeth berthnasol i'r bobl hyn yng nghyswllt Iechyd a Diogelwch. Bydd hyfforddiant a briffio ar gael ar amrywiaeth o ffurfiau yn ôl anghenion yr hyfforddai a'r gwahanol grwpiau o staff, myfyrwyr, ac eraill.

<u>Hygyrchedd</u>
Y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, cyhyd â bod modd, er mwyn sicrhau bod yr holl staff a myfyrwyr (ac eraill y mae gan y Brifysgol ddyletswydd o ofal drostynt) sydd ag anabledd yn gallu cael gafael ar bopeth y mae arnynt ei angen i wneud swydd neu i astudio fel y gall y rhai sydd heb anabledd ei wneud.